

## OES YNA WIR GREFYDD YNG NGOLWG DUW?

### *Nodyn i'r siaradwr:*

Dangoswch y dylanwad mae credoau crefyddol yn eu cael ar agweddau pobl. Byddwch yn barchus wrth drafod gwahanol grefyddau, ond cymharwch agweddau sy'n plesio Duw â rhai nad yw'n ei blesio

### **Y RHESWM PAM NAD YW POB GREFYDD YN DDERBYNIOL GAN DDUW** (4 mun.)

Mae'r rhan fwyaf yn etifeddu eu crefydd yn yr un modd ag y maen nhw'n etifeddu eu cenedl; mae rhai yn cysylltu crefydd â gwlad neu hil

Mae eraill yn dewis eu crefydd eu hunain

Mae archwiliad diweddar yn dangos bod 86% o boblogaeth y byd yn honni eu bod nhw'n aelodau o ryw grefydd neu'i gilydd (*w08-E 6/1 9*)

Mae credinwyr yn perthyn i 19 o brif grefyddau

Mae 'na 37,000 o grefyddau sy'n honni bod yn Gristnogion

Ond, a all yr holl ddysgeidiaethau anghyson fod yn gywir?

Yn hytrach na dysgu bod pob grefydd yn dderbyniol gan Dduw, mae'r Beibl yn dangos yn glir nad yw pob math o addoliad wedi ei gymeradwyo ganddo (*Bar 10:6, 7; Mc 7:6, 7; 1Co 10:20; rs-E 322-323*)

Mae'r Beibl yn dangos bod addoliad nad yw'n dderbyniol gan dduw yn ofer neu'n ddiwerth [*Darllen Iago 1:26, 27*]

Mae Duw yn rhoi pwyslais mawr ar y ffordd y dylen ni gyd fyw

Mae'r hyn rydyn ni'n ei gredu yn cael effaith gref arnon ni

### **PWRPAS GWIR GREFYDD** (4 mun.)

Prif nod y rhai sy'n ymarfer gwir grefydd yw clodfori a gogoneddu Duw ac i ufuddhau iddo (*Pre 12:13; Dat 4:11*)

Mae Duw Jehofa yn haeddu ein canmoliaeth a'n gogoniant; mae'r greadigaeth a'r Beibl yn datgelu ei rinweddau gwych (*In 3:16; Rhu 1:20*)

Ail nod gwir grefydd yw arwain y ddynoliaeth at y ffordd orau o fyw (*Esei 48:17, 18*) [*Darllenwch Micha 6:8*]

Daliadau rhai yw bod pob grefydd yn hybu'r un nod, sef i gredu yn Nuw ac i wneud daioni

Er mwyn penderfynu a yw Duw yn cymeradwyo ryw fath o addoliad, gallwn edrych ar yr effaith mae'r grefydd hwnnw yn ei chael ar ei dilynwyr, er enghraifft eu safonau a'u gweithrediadau

### **ARCHWILIO FFRWYTHAU DALIADAU GREFYDDOL** (11 mun.)

Mae yna gysylltiad uniongyrchol rhwng yr hyn rydyn ni'n ei gredu a'r hyn rydyn ni'n ei ymarfer neu yn ei wneud [*Darllenwch Mathew 7:16-20*] (*g95-E 7/8 26-27*)

Er enghraifft, roedd casineb, meddwdod, anfoesoldeb rhywiol, a nodweddion erchyll eraill yn gyffredin ymhlith hen dduwiau Groeg a Rhufain (*it-1-E 978-979*)

Mae hanes yn dangos bod addolwyr duwiau o'r fath wedi mwynhau gloddestau anfoesol a gwylio dynion ac anifeiliaid yn ymladd a lladd ei gilydd yn yr arena (*w02-E 6/15 28; w81-E 11/1 4-5; g97-E 11/8 27*)

Mae'r rhai sy'n credu bod eu hil nhw yn well na hiliau eraill wedi gorthrymu eraill mewn ffyrdd erchyll (*g98-E 3/8 24; g93-E 8/22 6-8*)

Mae agweddau pobl tuag at farwolaeth yn dylanwadu'n fawr ar eu bywydau

Mae llawer nad yw'n credu yn yr atgyfodiad yn canolbwyntio ar gael gymaint ag y medran nhw allan o fywyd nawr (*1Co 15:32*)

Gan fod rhai yn credu bod yr amser ar gyfer popeth wedi ei drefnu ymlaen llaw, nid ydyn nhw'n cymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad na'u gweithgareddau (*w96-E 9/1 6*)

Mae'r gred bod y meirw yn effeithio ar y byw yn gwneud i lawer ymarfer arferion ofergoelus, sy'n achosi problemau ac yn pechu Duw (*w05-E 1/1 29-30; w98-E 7/15 21*)

Cred llawer yw y daw Teyrnas Dduw drwy law dyn

Mae meddylfryd o'r fath yn diystyru'r ffaith nad ydyn ni'n rhan o'r byd a bod hyn yn rhan allweddol o gadw ein haddoliad yn bur ac yn lân (*Iag 1:27*)

Yn ychwanegol i hyn, canlyniad gwahanol ddaliadau gwleidyddol yw casineb ac ymraniad

Nid yw pobl yn derbyn bod Teyrnas Dduw yn llywodraeth nefol go iawn a fydd yn rheoli dros y ddaear (*Da 2:44; Mth 6:10*)

Mae angen inni edrych yn fanwl ar ffrwyth grefyddau; os yw grefydd yn caniatáu neu'n hybu ymarferion mae'r Beibl yn eu condemnio, a yw'n cyrraedd safonau Duw?

Mae'n hanfodol ein bod ni'n ateb y cwestiwn hwnnw, nid o'n safbwynt ni, ond o safbwynt Duw

### **YMARFER GREFYDD SY'N GWIR O SAFBWyNT DUW** (11 mun.)

Mae byw mewn ffordd sy'n plesio Duw yn gysylltiedig â chael gwybodaeth gywir amdano (*Tit 1:1*) [*Darllenwch Colosiaid 3:10*]

Felly, o safbwynt Duw mae'n rhaid i wir grefydd fod wedi ei seilio ar yr hyn sydd yn yr Ysgrythurau (*In 8:32; 17:17*)

Canlyniad gwir grefydd yw pobl sy'n gwneud ewyllys Duw ac yn adlewyrchu'r doethineb sydd oddi uchod [Darllenwch Iago 3:17, 18]

Rhaid i wir grefydd annog pobl i fod yn gariadus (In 13:34, 35; 1In 3:10)

Bydd y bobl sy'n ymarfer y gwir grefydd o safbwynt Duw yn gogoneddu ei enw ac yn dysgu eraill am y Deyrnas (Sal 83:18; Mth 24:14)

Drwy eu gweithredoedd gallwch adnabod y bobl sydd yn y gwir grefydd

Mae gwir grefydd yn annog pawb i archwilio'r adnodau a phrofi iddyn nhw eu hunain ewyllys perffaith Duw (Rhu 12:2)

Gellir gwneud hyn drwy ddysgu am yr hyn y mae'r Beibl yn ei ddysgu (In 17:3)

Gadewch i ddysgeidiaethau'r Beibl fagu ffrwythau da ynoch chi (1The 2:13)

Archwiliwch y dystiolaeth drosoch chi'ch hun, a rhowch ar waith y 'grefydd sy'n bur yng ngolwg Duw ein Tad' (Does dim rhaid darllen pob adnod)

Rhif 173-W—tudalen 2

I'W DRADDODI MEWN 30 MUNUD

© 2015 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania